



Gŵyl Ffilm Watch Africa Cymru

Nid yw moroedd mwyn yn creu morwyr medrus;

ymateb **Watch Africa Cymru** i waith grŵp ffocws Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ar ailgyfeirio ein gwaith rhyngwladol.

Chwefror 2021

 wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

 Cymru
Wales

[Watch Africa Cymru](#) yw unig wyl ffilmiau Affricanaidd Cymru a'r unig sefydliad sy'n cyngori am ddiwylliant Affricanaidd yng Nghymru. Rydyn ni'n rhoi llwyfan i gelfyddydau a diwylliannau Affricanaidd, celfyddydau a diwylliannau Affricanaid ar wasgar, ynghyd â chelfyddydau a diwylliannau Cymreig a rhyngwladol. Gofynnwyd inni ymateb a chyfrannu at y sgwrs roedd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn ei chynnal. Byddwn yn gwneud hynny yn ein ffordd ddad-drefedigaethol ein hunain, gan seilio ein hymateb ar nodiadau o sgysiau, yr adborth dilynol a gafwyd, gwybodaeth ac adnoddau a rannodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru â ni, a doethineb ein hynafiaid.



Gŵyl Ffilm Watch Africa Cymru

Salaam mabibi na mabwana,¹ diolch i bawb a rannodd eu safbwyntiau â ni. Mae'r geiriau rydyn ni'n eu rhannu â chi heddiw wedi'u seilio ar ein profiadau bywyd. Fel pobl o Ddwyrain Affrica yng Nghymru, rydyn ni'n gyfarwydd ag arwahanrwydd. Yn y [fideo a rannodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru â ni](#), mae Michael Sheen yn trafod ei brofiad o arwahanrwydd, a'r ffaith mai ei acen Gymreig oedd yn gyfrifol am hynny:

"It's amazing the effect that not being understood in a London's MacDonalds can have on a person's life."

Rydyn ni'n eich gwahodd i gnoi cil, am ennyd, a sylweddoli nad yw'r profiad hwn yn unigryw. Bydd pobl o gymunedau sydd wedi'u lleiafrifoli yng Nghymru yn cael yr un profiadau mewn McDonald's ym Mangor neu Abertawe. Efallai mai ein hacenion, ein hethnigrwydd, neu ein hanghenion hygyrchedd a fydd yn ein gosod 'ar wahân'. Rhaid inni wastad ofyn pwy yw'r bobl hyn sydd ar wahân, a pham. Byddwn ni'n sôn am gymunedau sydd wedi'u lleiafrifoli, yn hytrach nag am leiafrifoedd, gan mai cael eu creu fydd lleiafrifoedd. Mae model cymdeithasol anableded yn cydnabod mai rhwystrau mewn cymdeithas sy'n achosi i bobl fod yn anabl, yn hytrach nag unrhyw nam neu wahaniaeth. Mae'r un peth yn wir am gymunedau sydd wedi'u lleiafrifoli yn sgil eu hil, eu rhywedd, eu cyfeiriadedd ac amryw byd o resymau eraill; pobl sy'n creu lleiafrifoedd a hynny drwy anghyfiawnderau systemig, cymdeithasol a diwylliannol. Nid yw cymunedau sydd wedi'u lleiafrifoli yn creu heriau cynhenid, ac nid ydyn nhw'n aros i rywun 'roi' lle wrth y bwrdd neu lais iddyn nhw. Nid yw cymunedau sydd wedi'u lleiafrifoli'n rhai di-rym. Y gwirionedd yw bod gennyn ni i gyd yr un hawl i gael grym, ond mae gormes systemig yn atal rhai unigolion rhag cael y grym hwnnw. Mae'n bwysig cofio hyn – mae gennyn ni i gyd yr hawl i gael grym.

¹ Cyfarchion heddychlon ichi, foneddigion a boneddigesau, Swahili

1. Cymunedau a phontydd:

Mae modd rhannu'r hyn y mae 'cymuned' yn ei olygu yn hunaniaethau llai a mwy cymhleth po fanylaf yr edrychwn ni ar bethau. *'Dydy clywed rhu ddim yn golygu eich bod chi wedi siarad â'r llewod.'* Nid yw siaradwyr Cymraeg, pobl anabl a phobl o liw yn unffurf.

Mae Cymru'n amlddiwylliannol ac yn amlieithyddol, ac mae ynndi wahanol gymunedau o unigolion. Nid peth hawdd yw cynrychioli neu roi llwyfan i Gymru, ac mae angen meddwl am hynny'n ddyfnach. Pwy yn union sy'n datblygu 'Brand Cymru Wales'² a beth yn union sydd yn 'Gymru yn ddigamsyniol'? Mae gan Gymru ei hun sawl wyneb, a phwy sy'n dewis pa wyneb sy'n cael ei ddangos? *'Nerth gwlad, ei gwybodaeth'* meddai'r hen air, ac efallai nad wyneb unffurf Cymru y dylen ni geisio'i ddangos i'r byd, ond yn hytrach y cyfoeth o wybodaeth, talent a phrofiadau amrywiol sydd gennyn ni.

Pan fyddwn ni'n sôn am godi pontydd rhwng Cymru a'r byd, rhaid inni ystyried rhwng pwy y mae'r pontydd hyn. Mae pontydd sydd eisoes yn cysylltu Cymru â'r byd; cysylltiadau teuluol yr Affricaniaid ar wasgar; cysylltiadau treftadaeth a diwylliant; a chymunedau sy'n rhannu profiadau sy'n eu huno y tu hwnt i ffiniau, fel pobl sy'n byw ag anabledau ym mhob cwr o'r byd. Drwy ganfod a hybu'r perthnasau hyn, bydd



² Gweler Pennod 3 o [Gynllun Gweithredu Rhyngwladol Cymru](#)

modd datblygu cysylltiadau sy'n para'n hwy ac sy'n fwy cynaliadwy, gan fod perthnasau, profiadau cyffredin a diwylliannau cyffredin eisoes yn bodoli. Mae Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chymry ar Wasgar Llywodraeth Cymru³ yn cydnabod gwerth cysylltiadau sy'n bodoli'n barod, ond nid yw'n cydnabod gwerth y diaspora rhyngwladol sy'n byw yng Nghymru. Pa mor drefedigaethol yw'r rhagdybiaeth bod gwerth i'r Cymry ar wasgar dramor, ond na allwn gydnabod gwerth diwylliannol, cyfraniadau a photensial diaspora rhyngwladol sy'n byw yng Nghymru? Yn wir, *wrth edrych ar ddail y coed yn unig, wnewch chi fyth ddarganfod prydferthwch y gwreiddiau.*

A rhaid edrych hefyd ar sut y byddwn ni'n ymgysylltu â phobl. Mae 'rhagfarn ddiarwybod' yn derm rydyn ni wedi clywed llawer amdano'n ddiweddar. Nid yw'n ymwneud yn unig â'r ffordd y byddwn ni'n trin cymunedau sydd wedi'u lleiafrifoli yn y wlad hon; mae hefyd yn berthnasol i sut y byddwn ni'n ymgysylltu â phobl dramor a sut y byddwn ni'n 'arwahanu' eu diwylliant, yn ymwybodol ac yn ddiarwybod ill dau. Mae angen inni fod yn ymwybodol o'r fframweithiau a'r derminoleg y byddwn yn eu defnyddio, er mwyn osgoi creu unrhyw hierarchaethau ffug. Mae angen inni fod yn ymwybodol o sut y byddwn, mewn ffyrdd strwythurol a diwylliannol, yn disgwyl i bobl 'gyd-fynd' â'r normau o hyd. *Peidiwch â disgwyl cael cynnig cadair pan fyddwch chi'n ymweld â man lle bydd y pennaeth yn eistedd ar y llawr.* Ni ddylid defnyddio cwricwlwm y Gorllewin ar hanes celfyddyd a chelfyddyd gyfoes yn llinyn mesur wrth farnu pob diwylliant a chreadigrwydd. Nid yw bod yn wyn, yn abl o gorff, ac yn gisryweddol yn fwy 'normal' na pha mor normal yw defnyddio cadair olwyn, neu garu rywun o'r un rhywedd â chi, neu fod yn Ddu, neu'r cyfan o'r rhain. Dyma sydd ddim yn 'normal': y ffaith nad oes gan bawb yr un adnoddau a chyfleoedd, a bod cyn lleied ohonon ni'n cael ein gweld yn gynrychioladol o Gymru. Mae angen inni gydnabod bod gan gymunedau amrywiol wahanol anghenion a phrofiadau bywyd, a dim ond wedyn y gallwn edrych ar feysydd sy'n rhyngblethu y mae angen rhoi sylw iddyn nhw.

Mae'n rhaid inni ailfeddwl am sut y byddwn yn asesu'r celfyddydau, ac am sut y byddwn yn asesu artistiaid hefyd. Pwy sy'n cael 'cynrychioli Cymru ar y llwyfan rhyngwladol'? Ac a oes yn rhaid i bobl greadigol ddringo'r ysgol i fod yn rhan o'r byd celfyddydol rhyngwladol, ynteu a all hwnnw fod yn agored i bobl greadigol iau, a all elwa cymaint o gael cyfleoedd i ehangu'u gorwelion? A allwn ni gydnabod gwerth galluogi cymunedau sydd wedi'u lleiafrifoli yng Nghymru i ailgysylltu â'u treftadaeth ac i archwilio hwnnw, i'r un graddau â'r gwerth sydd wedi'i roi'n draddodiadol ar alluogi artistiaid gwyn i archwilio diwylliannau sy'n newydd iddyn nhw? A beth mae ymwneud hanesyddol Cymru â threfedigaethu, fel gwlad sydd wedi'i threfedigaethu'i hun, ac fel rhan o ymerodraeth drefedigaethol ill dau, yn ei olygu i'n hymwneud rhyngwladol heddiw?

³ [Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chymry ar Wasgar Llywodraeth Cymru](#)

Camau gweithredu yn deillio o'r sgysiau:

- Ariannu gweithgareddau sy'n creu perthnasau sy'n para. Gofyn: beth fydd y canlyniadau ymhen blwyddyn, ymhen 10 mlynedd? Ydyn ni'n datblygu perthnasau sy'n para, ynteu'n ymhél yn ysbeidiol yn unig â'r rhain mewn ffordd echdynnol?
- Osgoi arferion trefedigaethol a hierarchaethau ffug.
- Cydnabod a galluogi pontydd sy'n bodoli'n barod. Mewn ceisiadau, gofyn y cwestiwn: 'Beth sy'n eich cysylltu chi â'r lle hwn?'
- Peidiwch â cheisio 'cynrychioli Cymru'; yn hytrach, ceisiwch ei chysylltu â'r byd, er mwyn dysgu a rhannu
- Gofynnwch ym mha ffordd mae prosiectau yn fuddiol ac yn gyfartal i bawb
- Nid systemau unffordd yw pontydd go iawn; rhaid i bobl a phethau allu symud i'r ddau gyfeiriad
- Galluogi cysylltiadau sydd y tu allan i ganon traddodiadol celfyddyd fawr, gan gydnabod gwerth arferion traddodiadol, ond hefyd werth diwylliannau newydd a'r cyfryngau newydd
- Hybu lleisiau a phobl greadigol ifanc a newydd nad ydyn nhw efallai wedi bod â hanes cryf o lwyddo yng Nghymru, a hynny o bob oed
- Cydnabod a rhoi gwerth ar allu a gwybodaeth rhyngddiwylliannol ymhlith y diaspora rhyngwladol a chymunedau sydd wedi'u lleiafrifoli⁴
- Ystyried sut y gall cymunedau yng Nghymru (ac yn y wlad dramor) fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso
- Sicrhau dull ar y cyd o annog rhyngwladoliaeth ledled Cymru drwy ymuno a chydweithio â sefydliadau eraill ac adrannau'r llywodraeth sy'n gweithio yn rhyngwladol, e.e. Cymru ac Affrica, British Council. Bydd hyn yn golygu bod modd cydweithio a thrafod dulliau gweithio ar y cyd, e.e. y celfyddydau ac iechyd yn rhyngwladol; y celfyddydau, newid hinsawdd a'r amgylchedd, ac yn y blaen.
- Datblygu sgysiau ar wahân ond rhai sy'n croesdorri gyda chymunedau amrywiol am y celfyddydau, diwylliant a rhyngwladoliaeth.

⁴ Gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Mae gan Gymru hanes hir o ryngwladoliaeth – fel rhan o'r ymerodraeth Brydeinig drefedigaethol, mae'n wir, ond hefyd fel cartref i gymunedau amrywiol, ac fel ffrind i ddiwylliannau, cymunedau a gwledydd dan orthrwm drwy'r byd. Fe all cysylltiadau hanesyddol, ac fe fydd cysylltiadau hanesyddol, yn cyfrannu at y ffordd y byddwn yn ymwneud â'r byd heddiw. *Mae'r goeden yn cofio'r hyn y bydd y fwyell yn ei anghofio*, felly rhaid inni dderbyn rôl fyd-eang Cymru yn y gorffennol a bod yn agored ynghylch hynny.



2. Y Lleol, Ieithoedd a Chydgyfeirioldeb (Intersectionality):

Oes rhaid siarad Cymraeg i gynrychioli Cymru? Mae siaradwyr Cymraeg cydgyfeiriol (intersectional) yn bodoli, ond pobl wyn yw mwyafrif y cymunedau Cymraeg. Mae ysgolion yn cyfrannu at ledaenu'r Gymraeg yn ehangach ymhlith y genhedlaeth iau, ond allwn ni ddim dibynnu ar hyn yn unig. Mae profiad y Cymry o ormes ieithyddol a diwylliannol yn debyg i brofiadau cymunedau sydd wedi'u lleiafrifoli. Ond a yw profiadau cymunedau sydd wedi'u lleiafrifoli yn canu cloch ymhlith siaradwyr Cymraeg? A allwch chi ddeall colled mam y mae'i phlant yn gwrthod siarad Lingala â hi rhag iddyn nhw gael eu gwawdio, gan golli'r gallu i siarad iaith ei hynafiaid? Mae hyn yn digwydd yng Nghymru hefyd; sut mae hynny'n gwneud ichi deimlo?

Mae pob iaith mewn gwledydd sydd wedi'u trefedigaethu wedi wynebu dilead diwylliannol, a goruchafiaeth y Saesneg wedi'i gorfodi ar bobl yn y gwledydd hynny.⁵ Eto i gyd, gall ieithoedd hefyd achosi rhwystrau, ac mae modd eu defnyddio i greu hierarchaethau a strwythurau grym newydd. Beth allwn ni ei ddysgu o brofiad y Cymry o drefedigaethu a gormes er mwyn peidio â gormesu pobl eraill? A beth allwn ni ei ddysgu gan wledydd eraill sydd â phrofiad o drefedigaethu er mwyn symud tuag dderbyn ieithoedd niferus? Yn Nigeria, mae iaith Pidgin yn bodoli ochr yn ochr â Saesneg bratiog, Saesneg ffurfiol, Hausa, Yoruba, Igbo a thoreth o ieithoedd eraill. Ydyn ni'n ofni croesawu amlieithrwydd tebyg yng Nghymru? Mae cryfder a grym mewn bod yn dramorwr. Wrth inni ddysgu eich iaith chi, a'i defnyddio mewn ffyrdd nad yw'n berffaith, gall hynny esgor ar farddoniaeth ieithyddol newydd.⁶ Gall dysgu Cymraeg roi rhodd inni ar ffurf hunaniaeth, perthyn a chyd-berthyn.⁷ Agorwch ddrws eich diwylliant a'ch iaith, ond peidiwch ag anghofio dangos diddordeb yn eich tro yn ein hieithoedd ni, yn ein diwylliant ni, ac yn ein ffyrdd ni o deimlo a phrofi pethau.

Mae Bywydau Du o Bwys yn ochri â chymunedau sydd wedi'u lleiafrifoli ledled y byd. Ar yr un pryd, mae'n gofyn inni i gyd asesu ein sefyllfaoedd cymharol wrth edrych ar fraint a grym. Mae'n bwysig trafod y Gymraeg a diwylliant Cymru yng nghyd-destun cydgyfeirioldeb ac yng nghyd-destun bywydau pobl wyn.

⁵ Neu Ffrangeg, Sbaeneg, Iseldireg ac ieithoedd trefedigaethol eraill.

⁶ Fel cerddi amlieithog rhyngwladol Mike Jenkins, Eric Ngalle Charles ac Ifor ap Glyn:

[The 3 Molas builds a Bendigeidfran-sized bridge between Wales and Cameroon](#)

⁷ <https://www.theguardian.com/commentisfree/2019/dec/06/welsh-woman-of-colour-census-identity-whiteness>

Camau gweithredu yn deillio o'r sgysiau:

- Mwy o fuddsoddi i helpu pobl o gymunedau amrywiol i ddysgu Cymraeg, croesawu'r daith ddysgu a'r wybodaeth fylchog a fydd gan bobl wrth wneud hynny; peidio â buddsoddi yn y bobl sy'n 'rhan o'r clwb' yn barod yn unig
- Gweithio ar y cyd â chymunedau sydd wedi'u lleiafrifoli i edrych ar ffyrdd o ymwneud mwy â'r Gymraeg. Bydd hyn yn berthnasol wrth ddarparu yn ogystal ag wrth hyrwyddo'r Gymraeg yn y cymunedau.
- Croesawu'r ieithoedd gwahanol sy'n bodoli yng Nghymru, ac edrych ar brofiadau cyffredin
- Croesawu lleisiau a thrafodaethau beirniadol a chydgyfeiriadol; nid yw hanes yn eithrio'r presennol o'r drafodaeth
- Datblygu polisiau a fydd yn croesawu'r amlddiwylliannaeth a'r amlieithrwydd cynyddol a welir yng Nghymru
- Croesawu sgiliau ieithyddol cymunedau sydd wedi'u lleiafrifoli yng Nghymru fel pontydd rhyngwladol sydd eisoes wedi'u codi
- Defnyddio'r un adnoddau a ddefnyddir i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg i hyrwyddo ieithoedd eraill. Mae gennyn ni'r adnoddau i ddadwneud hierarchaethau trefedigaethol iaith, nid yn unig i helpu'r Gymraeg, ond i helpu ieithoedd eraill hefyd, ac mae gennyn ni ddyletswydd i rannu'r ieithoedd hyn yn lleol ac yn fyd-eang
- Brwydro yn erbyn hierarchaethau ffug a rhethreg cystadleuaeth rhwng cymunedau
- Dod o hyd i eiriau newydd am bynciau newydd. Beth yw'r gair Cymraeg am 'intersectionality', er enghraifft? Yn y ddogfen hon, defnyddir 'cydgyfeirioldeb' - gair a fathwyd fel rhan o brosiect cydweithredol dwyieithog rhwng dwy gydweithfa Gymreig, *Where I'm Coming From* ac *Y Stamp*, sy'n enghraifft bositif o waith yn y maes hwn.⁸ Pa mor gyfarwydd yw geiriau fel 'Braint Pobl Wyn' am 'White Privilege'? 'Cisrwyeddol' am 'Cisgender'? Mae angen i ieithoedd dyfu a symud wrth i'r byd newid.
- Mae angen croesawu hunaniaethau lluosog, a hyd yn oed rai anghyson. Does dim yn cael ei golli yn y broses hon.

⁸ Mae gwaith *Y Stamp* a *Where I'm Coming From* yn enghraifft bositif fan hyn: <https://www.ystamp.cymru/post/fideo-digwyddiad-hunan-iaith>



Dydyn ni ddim yn siaradwyr Cymraeg yn WAC. Yn ôl hen ddywediad Affricanaidd, *'Peidiwch â chychwyn ar daith ar gefn asyn rhywun arall.'* Nid ein hasyn ni yw'r Gymraeg, ac felly rydyn ni'n awgrymu mai'r gymuned Gymraeg, efallai, ddylai fod yn bwrw ymlaen â'r daith hon.⁹ Ein hawgrym ni i Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru yw y dylid datblygu polisiau ym maes y Gymraeg sy'n gysylltiedig â chydgyfeirioldeb ac amlieithrwydd, a'r rheini'n annog pobl o gefndiroedd amrywiol i ddysgu'r iaith. Dylai polisiau cyllido geisio rhoi gwerth ar ieithoedd amrywiol a phrofiadau bywyd pobl ochr yn ochr â'r Gymraeg. Mabibi na mabwana, nid ein bwriad yw cwestiynu pwysigrwydd y Gymraeg, ond yn hytrach, gweithio tuag at greu ecosystem o ieithoedd. Mae mwy na geiriau i iaith, ac mae angen gwneud mwy i feithrin diwylliant o ymddiriedaeth, didwylledd a pharch ar bob ochr.

⁹ Gweler uchod

3. O 'werthoedd Cymreig' tuag at werthoedd dynol

Pa werthoedd sy'n sail i ymgysylltu rhyngwladol? Sut ydyn ni'n ystyried yr amgylchedd a chenedlaethau'r dyfodol yn y gwaith hwn? Mae celfyddyd yn dal i orfod 'profi'i werth' yn yr hinsawdd gwleidyddol presennol. Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn cael nawdd cyhoeddus, felly mae lefel o ymyrraeth gan y wladwriaeth a disgwyliad ynghlwm wrth ei waith. *Chewch chi ddim mêl heb wenyn.* Ar yr un pryd, mae gan Gymru gyfrifoldeb byd-eang, ac mae'n cydnabod hwn.¹⁰ Gan hynny, mae cyfle i groesawu'r gwleidyddol fel rhan o'r diwylliannol, ac i 'ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang' wrth geisio ymgysylltu'n rhyngwladol ym maes y celfyddydau. Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r term 'cymell tawel' i esbonio'i gweledigaeth o bŵer meddal; perswadio, ysgogi, dylanwadu a denu'n dawel. Gall 'buddsoddiad' y celfyddydau arwain at effeithiau y tu hwnt i'r rhai a welir yn y fan a'r lle. Ar lawr gwlad, mae'r celfyddydau yn rhoi cyfleoedd i fwynhau, i hybu lles, i greu bywoliaeth. Drwy ymgysylltu'n rhyngwladol ym maes y celfyddydau mewn ffordd amrywiol, gonest a deniadol, bydd modd '[t]ynnu sylw at Gymru fel lle i fuddsoddi ynddo, astudio ynddo ac ymweld ag ef'.¹¹ Os bydd gwerthoedd dynol yn cael eu cyflwyno yn fyd-eang ac yn lleol, bydd yr hyn a wnawn, a phwy ydyn ni, yn siarad drosto'i hun.

Nid yw Cymru ar ei phen ei hun wrth wynebu heriau newid hinsawdd, anghydraddoldeb neu'r pandemig presennol. Rydyn ni'n bodoli fel rhan o'r ddynoliaeth fyd-eang, a rhaid inni ddeall ein hunain a gweithredu yn y modd hwnnw. Ond os nad ydyn ni eisoes yn gyfartal yma yng Nghymru, sut allwn ni drin pobl eraill y tu allan i Gymru yn gyfartal, heb sôn am gredu bod gan 'genedlaethau'r dyfodol', sydd heb eu geni eto, hawliau? Ac felly mae'r byd-eang yn ein dwyn yn ôl at y lleol; rhaid inni wneud ein gwaith gartref yn union fel y gwnawn waith ar y llwyfan rhyngwladol. Nid yw'r ddau beth ar wahân.

¹⁰ Drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: [Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang](#)

¹¹ [Casgliad](#), Cynllun Cysylltiadau Rhyngwladol Cymru

Camau gweithredu yn deillio o'r sgysiau:

- Dylai democratiaeth ddiwylliannol ddylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau ar bob lefel¹²
- Datblygu dealltwriaeth glir o 'ddiplomyddiaeth ddiwylliannol' ryngwladol Gymreig, a sut mae hyn yn cyd-fynd ag agenda 'cymell tawel' Llywodraeth Cymru
- Rhaid cael tryloywder rhwng y sefydliad a'r unigolyn
- Mae angen i gelfyddydau a chyllido'r celfyddydau fod yn hygyrch i gymunedau anabl¹³
- Rhaid i sefydliadau eu hunain wneud mwy i ddod yn gynrychioladol, ac mae hyn yn cynnwys Celfyddydau Rhyngwladol Cymru¹⁴
- Mae angen gofod a chyfleoedd ar gymunedau i gysylltu ar lefel artistig wrth fod yn greadigol, ac nid wrth ymdrin â phroblemau'n unig
- Mae angen mwy o gyfleoedd i gyd-greu a chydweithio – cymryd risgiau i herio'r status quo
- Galluogi artistiaid, cyfleoedd a gwybodaeth i deithio i'r ddau gyfeiriad
- Opsiynau cyllido sy'n galluogi pob artist i ymgysylltu'n rhyngwladol, gan gynnwys y rheini sydd heb incwm rheolaidd, artistiaid sy'n gorfod gwneud swyddi eraill yn ystod y dydd, neu bobl sydd ag anabledau neu'n rhieni sengl
- Cefnogi artistiaid i ddeall ôl-troed carbon prosiectau, a chynnwys hyn mewn ceisiadau ac wrth ystyried yr holl waith rhyngwladol rydych chi'n ei noddi
- Galluogi'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr i ddatblygu
- Darllen Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, a'i rhoi ar waith yn ymarferol¹⁵
- Gall y celfyddydau gyfrannu at fywoliaethau, iechyd a lles cymunedau yng Nghymru a'r byd; gadewch inni osod yr un amcanion ar gyfer fan hyn â'r rhai sydd gennyn ni dramor
- Symud o ailbobi sgysiau sydd wedi'u cynnal eisoes i ddechrau cyflwyno newid

¹² Cefnogir hyn gam gweithredu [#76 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)

¹³ [Crybwyllwyd Saith Egwyddor Cynhwysol](#) i sefydliadau celfyddydol a diwylliannol fan hyn

¹⁴ Pan na ellir creu swyddi newydd ar unwaith, ystyriwch gyfleoedd i staff fynd ar secondiad mewn sefydliadau a rhwng sefydliadau: [#10 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)

¹⁵ [Newid Syml Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)

Gartref, fe ddywedwn fod yn rhaid gofyn am gamel pan *fyddwch chi'n disgwyl gafr*. Gan hynny, rydyn ni'n gofyn am gyflwyno arferion celfyddydol rhyngwladol wedi'u dad-drefedigaethu, am brosesau gwneud penderfyniadau sy'n ddemocrataidd yn ddiwylliannol, am gyfleoedd teg a chyfartal a phrosesau cyllido hygyrch a syml, am gynrychiolaeth i gymunedau sydd wedi'u lleiafrifoli ar bob lefel yn y sefydliad, am amlieithrwydd, am amlddiwylliannaeth, am gyfleoedd teg a chyfartal i bobl greadigol yng Nghymru a'r byd, am gydlyniant ymhlith ac mewn cymunedau, ac am gydnabod a pharchu'r pethau sy'n debyg ac yn wahanol rhyngom heb hierarchaethau ffug. A hynny nawr.

Ond rydyn ni'n deall hefyd bod y *rheini sydd eisiau glaw hefyd yn gorfod derbyn y mwd*. Felly sut mae creu'r gofod i gynnal y sgysiau angenrheidiol, ond gan symud tuag at y newid y mae ei angen ers tro byd?



Gŵyl Ffilm Watch Africa Cymru

4. Os nad yw coeden yn gwybod sut i ddawnsio, bydd y gwynt yn ei dysgu

Ysgrifennwyd y testun hwn er mwyn cnoi cil ac ymateb yn greadigol i sgysiau a gafwyd gyda Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru. Roedd yn fodd o fyfyrion gan ymbellhau oddi wrth strwythurau a chyfyngiadau llywodraethu, ac oddi wrth ffyrdd o feddwl a chyfathrebu sydd eu hunain yn dilyn rheolau sy'n bodoli i rymuso rhai pobl tra'n eithrio pobl eraill. Ac felly, rydyn ni'n cynnig y gallai Celfyddydau Rhyngwladol Cymru edrych yn fwy creadigol ar sut mae'n gweithio, gan groesawu'r defnydd o iaith artistig, o'r byd barddoniaeth i'r byd dawn, er mwyn trafod dyfodol celfyddydau rhyngwladol yng Nghymru. Dyma ddwy alwad a glywsom yn glir wrth gynnal y sgwrs:

Mae angen mwy o gyfleoedd i fyfyrion a sgwrsio.

Ac felly rydyn ni'n cynnig cynnal mwy o sgysiau, gan ddwyn lleisiau lleol a byd-eang ynghyd, er mwyn trafod y pethau sy'n bwysig yn fanylach. Ond dylech chi ystyried hyn fel gwaith sy'n cael ei wneud. Dylech gydnabod y baich emosiynol sy'n gysylltiedig â hyn, a'i effaith ar gymunedau. Wrth ein gwahodd i siarad, byddwch yn ymwybodol beth fyddwch chi'n ei ofyn. Peidiwch â lleihau pwysigrwydd gwahanol faterion drwy daflu popeth i mewn i un pair. Galluogwch bobl i gynnal sgysiau ac iddyn nhw fwy o ffocws, a'r rheini wedi'u harwain gan leisiau sydd â phrofiad bywyd. Ceisiwch greu manau diogel lle bydd mwyafrif y lleisiau'n rhai anabl, neu lle bydd lleisiau pobl o liw yn flaenllaw yn yr ystafell. Tra bo cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol, gadewch inni drafod y lleol byd-eang, y toreth o swigod ac ecosystemau diwylliannol sy'n bodoli yng Nghymru. Pam mae cymaint o ddi-ddordeb gennyn ni ym mhresenoldeb Cymru dramor, ond ddim yn y rhyngwladol yng Nghymru?



Gŵyl Ffilm Watch Africa Cymru

Ac rydyn ni'n cynnig symud o sgwrsio i greu; cynnig comisiynau celfyddydol lleol a byd-eang fel rhan o'r sgysiau hyn; defnyddio dawns/barddoniaeth/cân a llawer mwy i adlewyrchu'r heriau rydyn ni'n eu trafod ac i ymateb i'r rheini. Gan feddwl drwy'r celfyddydau, yn hytrach nag amdanyn nhw, a chan greu corff o waith yn y broses, efallai y gallwn ganfod gweledigaeth newydd o Gymru yn y gwaith hwn. Gall hyn swnio'n ffansiol, ond mae angen undod a sgysiau rhwng cymunedau yng Nghymru os ydyn ni am gael llwyfan ystyrion yn rhyngwladol. Yn y celfyddydau, mae gennyn ni'r adnoddau i rannu profiadau ar lefel ddyfnach, i feithrin empathi tuag at achosion a phryderon pobl eraill.

Diolch am ddarllen ein safbwyntiau ni, ac rydyn ninnau'n gobeithio gallu darllen, clywed, gweld a chlywed eich rhai chi yn y dyfodol agos. Os na wnaethon ni gofio crybwyll unrhyw beth, neu os na wnaethon ni ddweud unrhyw beth yn y ffordd iawn, fe hoffem ni ymddiheuro rhag blaen. *Dwylo pobl sy'n gweithio sy'n gwneud camgymeriadau ac felly gobeithio bod rhywfaint ichi gnoi cil drosto ar y tudalennau hyn.*

Asanteni mabibi na mabwana.¹⁶



¹⁶ Gyda diolch.

 wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

www.wai.org.uk



 Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

